

Rolau aelodau'r Cyngor

Gwrthdaro buddiannau: canllawiau i ymgeiswyr

- 1 Mae'r NMC yn gorff statudol annibynnol ac yn elusen. Ein rôl yw rheoleiddio'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.
- 2 Fel aelod o'r Cyngor, bydd angen i chi ddangos safonau moesegol uchel ac uniondeb, gan ymddwyn bob amser mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder yn yr NMC a rheoleiddio proffesiynol.
- 3 Fel rhan o'ch cais gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch gwirioneddol neu bosibl y gellid ei ystyried yn berthnasol i'r NMC. Mae hon yn rhan bwysig o'ch cais ar gyfer yr NMC; i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol sy'n craffu ar y broses ddethol rydym yn ei chynnal i wneud yn siŵr ei bod yn gadarn; ac i'r Cyfrin Gyngor y mae angen iddynt fod yn sicr ar hyn cyn gwneud unrhyw benodiad i'r Cyngor.
- 4 Rydym yn gwybod nad yw bob amser yn hawdd adnabod gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl. Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn wedi'i ddatblygu i'ch helpu ac mae'n cynnwys enghreifftiau.
- 5 Gallai fod gennych wrthdaro buddiannau os gwelir bod unrhyw un o'ch ymrwymadau, rhwymedigaethau neu deyrngarwch i sefydliadau neu bobl eraill yn eich atal rhag cymryd rhan mewn trafodaethau'r Cyngor yn ddiuedd a gwneud penderfyniad er budd pennaf yr NMC yn unig. Dylid datgan unrhyw wrthdaro a allai fod yn berthnasol i waith yr NMC.
- 6 Mae'n bwysig nodi, os ydych chi'n datgan gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro posibl, nad yw hyn o reidrwydd yn golygu na fyddwch yn cael eich ystyried i'w penodi. Mae rhai gwrthdrawiadau sy'n golygu na allech fod yn aelod o'r Cyngor ac na fyddai'r Panel Dethol yn gallu bwrw ymlaen â'ch cais. Os ydym yn credu bod hyn yn wir, byddwn yn trafod hyn â chi i sicrhau ein bod yn deall y sefyllfa yn llawn cyn dod i unrhyw farn.
- 7 Er mwyn eich helpu, rydym wedi rhoi enghreifftiau o rai mathau gwahanol o wrthdrawiadau ym **mlychau A a B isod**.

Cod Ymddygiad y Cyngor

- 8 Disgwylir i aelod o'r Cyngor ddangos uniondeb a safonau moesegol uchel, fel yr amlinellir yng [Nghod Ymddygiad y Cyngor](#) gan gynnwys saith egwyddor bywyd cyhoeddus. Mae'r Cod yn datgan y byddai gennych gyfrifoldeb i:
 - 8.1 osgoi cael eich dylanwadu gan unrhyw unigolyn neu sefydliad a allai effeithio, neu gael ei ystyried yn effeithio, ar eich gallu i weithredu'n ddiuedd ac yn wrthrychol fel aelod o'r Cyngor;
 - 8.2 datgan unrhyw fuddiannau proffesiynol neu bersonol a allai wrthdaro â'ch rôl fel aelod o'r Cyngor. Gall hyn gynnwys datgan buddiannau aelodau o'r teulu neu gymdeithion agos

Adnabod gwrthdaro buddiannau

- 9 Mae'n bwysig eich bod yn ystyried eich amgylchiadau penodol eich hun wrth wneud cais i fod yn aelod o Gyngor NMC ac yn adnabod unrhyw wrthdrawiadau gwirioneddol neu unrhyw bosibilrwydd i wrthdrawiadau godi.
- 10 Gall fod sefyllfaoedd lle mae ymddangosiad gwrthdaro buddiannau yn bresennol hyd yn oed pan nad oes gwrthdaro gwirioneddol yn bodoli. Wrth ystyried gwrthdaro buddiannau posibl, mae'n bwysig ystyried sut y gallai eraill ei weld, ac a allai eich buddiannau arwain at ganfyddiad o ragfarn, hyd yn oed os nad oes unrhyw un yn bodoli.
- 11 Gall gwrthdaro buddiannau godi mewn nifer o amgylchiadau gwahanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - 11.1 Rolau neu ddiddordebau proffesiynol.
 - 11.2 Buddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol.
 - 11.3 Buddiannau anariannol neu bersonol.
 - 11.4 Gwrthdrawiadau teyrngarwch oherwydd eich rôl neu gysylltiad â sefydliad neu berson arall, er enghraifft eich cyflogwr, corff arall yr ydych yn aelod neu Ymddiriedolwr ohono neu os oes gan un o aelodau eich teulu rôl neu fuddiant a allai ddylanwadu ar eich penderfyniadau fel aelod o Gyngor NMC.
- 12 Mae'n hanfodol fod gan ein holl randdeiliaid hyder yn annibyniaeth a didueddrwydd y Cyngor yn ei gyfanrwydd ac aelodau unigol y Cyngor. Gallai hyd yn oed y canfyddiad o wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag aelod o'r Cyngor fod yn niweidiol i hyder y cyhoedd yn y Cyngor. Felly, mae'n hanfodol fod y gwrthdrawiadau posibl hyn yn cael eu datgan a'u harchwilio, yn yr un modd ag unrhyw wrthdaro gwirioneddol.

Datgan gwrthdaro buddiannau

- 13 Os nad ydych yn siŵr a yw eich amgylchiadau yn wrthdaro posibl, **codwch hyn cyn i chi gwblhau'r ffurflen Wybodaeth â Rhiannon Smith, yn rsmith@hunter-healthcare.com neu ar 07860 773860.** Bydd Rhiannon yn gofyn am gyngor gan Ysgrifennydd y Cyngor yn yr NMC, os oes angen.
- 14 Gellir archwilio unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig a nodwyd gennych chi neu'r NMC gyda chi ar unrhyw gam, gan gynnwys gan y Panel Dewis mewn unrhyw gyfweiliad terfynol.
- 15 Mae pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Os ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad, bydd y Panel Dewis yn archwilio gyda chi pa mor bell y gallai'r gwrthdaro effeithio ar eich gallu i gyfrannu'n effeithiol ac yn ddiduedd ar y Cyngor a sut y gellid ymdrin â hyn, pe baech yn cael eich penodi. Fodd bynnag, os, ar ôl y drafodaeth â chi, mae'r Panel o'r farn bod y gwrthdaro yn rhy fawr ac y byddai'n cwestiynu gonestrwydd y Cyngor neu'r penodiad, gallant ofyn i chi dynnu'ch cais

yn ôl.

- 16 Os oes gennych amheuaeth, dywedwch wrthym am unrhyw beth rydych chi'n teimlo a allai gyflwyno gwrthdaro, neu wrthdaro posibl, o fuddiannau, gan ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl, fel y gallwn drafod hyn â chi. Mae bod yn agored yn allweddol.

Blwch A: Enghreifftiau o wrthdaro sy'n debygol o'ch atal chi hefyd rhag bod ar y Cyngor ar yr un pryd â dal y rôl hon

Os ydych chi i fod i symud o'r swydd hon cyn dyddiad penodi fel aelod o'r Cyngor (sy'n debygol o fod ddiwedd 2026), yna gall hyn syrthio i'r rhestr a allai ei reoli ym Mlwch B isod.

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

- Ar hyn o bryd rydych chi neu cyn bo hir byddwch yn gweithio'n uniongyrchol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraethau Cymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban; unrhyw un o'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio mewn unrhyw wlad, neu ar gyfer cyrff y mae eu cylch gwaith yn gysylltiedig yn agos â chylch gwaith yr NMC megis hyfforddiant ac addysg gweithlu GIG Lloegr, NHS Education Scotland, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, neu'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, Gogledd Iwerddon. Gallai hyn fod yn llawn amser, yn rhan-amser neu mewn rôl ymgynghorol neu ymgynghori.
- Rydych chi ar hyn o bryd neu byddwch cyn bo hir yn aelod o gorff llywodraethol/Bwrdd y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwagedd, Unsain, Unite neu unrhyw gorff neu undeb arall sy'n cynrychioli'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. **Sylwch nad yw hyn yn cynnwys aelodaeth arferol o gorff proffesiynol neu undeb**
- Rydych chi ar hyn o bryd neu byddwch cyn bo hir yn cael eich cyflogi gan unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei amcanion yn gwrthwynebu neu'n gwrthdaro â rôl a phwrpas yr NMC.
- Rydych chi ar hyn o bryd neu byddwch cyn bo hir yn aelod o unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o 'felin drafod' neu sefydliadau lloio.
- Ar hyn o bryd rydych chi'n gadeirydd neu aelod panel apeliadau addasrwydd i ymarfer neu gofrestru NMC. ***Pe baech chi'n cael eich penodi'n aelod o Gyngor NMC, byddai'n rhaid i chi roi'r gorau i hyn.***

Ar hyn o bryd rydych chi'n ymwelydd Sicrhau Ansawdd (QA) (unigolyn a benodir gan ein partner cyflenwi QA, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu gan ein partner cyflenwi blaenorol Mott MacDonald, ar ran yr NMC i gynorthwyo â sicrhau ansawdd gweithgarwch addysg). ***Pe baech chi'n***

cael eich penodi'n aelod o Gyngor NMC, byddai'n rhaid i chi roi'r gorau i hyn.

- Ar hyn o bryd rydych chi'n Fydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg (LME) neu chi yw'r gohebydd swyddogol a enwir gyda'r NMC sydd wedi'i leoli mewn Sefydliad Addysg Cymeradwy sy'n darparu addysg bydwreigiaeth a / neu nyrsio cyn cofrestru. ***Pe baech chi'n cael eich penodi'n aelod o Gyngor NMC, byddai'n rhaid i chi roi'r gorau i hyn.***

Blwch B: Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau y gellir eu rheoli, ond y dylid eu datgan a'u harchwilio

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

- Fe wnaethoch chi weithio'n ddiweddar, neu cyn bo hir byddwch yn camu i lawr o gweithio, yn uniongyrchol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraethau Cymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban; unrhyw un o'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio mewn unrhyw wlad, neu ar gyfer cyrff y mae eu cylch gwaith yn gysylltiedig yn agos â gwaith yr NMC megis hyfforddiant ac addysg gweithlu GIG Lloegr, NHS Education Scotland, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, neu'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, Gogledd Iwerddon. Gallai hyn fod wedi bod yn llawn amser, yn rhan-amser neu mewn swydd gynghorol neu ymgynghoriaeth.
- Rydych yn ddiweddar wedi neu cyn bo hir byddwch yn ymddiswyddo o gael eich cyflogi gan neu gysylltu ag unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei amcanion yn gwrthwynebu rôl a phwrrpas yr NMC neu'n gwrthdaro â rôl a phwrrpas yr NMC.
- Rydych yn ddiweddar wedi neu cyn bo hir byddwch yn camu i lawr o fod yn aelod o unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o 'felin drafod' neu sefydliadau lobïo.
- Rydych wedi bod yn gadeirydd neu aelod o'r panel apeliadau addasrwydd i ymarfer neu gofrestru NMC yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Yn ddiweddar, rydych wedi bod yn ymwelydd Sicrhau Ansawdd (QA) (unigolyn a benodwyd gan ein partner cyflenwi QA, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu gan ein partner cyflenwi blaenorol Mott Macdonald, ar ran yr NMC i gynorthwyo â sicrhau ansawdd gweithgarwch addysg).

- Rydych chi wedi yn ddiweddar, rydych chi ar hyn o bryd neu byddwch cyn bo hir yn cael eich cyflogi gan brifysgol neu sefydliad addysg sy'n darparu rhaglenni addysg nyrsio a/neu fydwreigiaeth.
- Rydych chi wedi yn ddiweddar, rydych chi ar hyn o bryd neu byddwch chi cyn bo hir yn cael eich cyflogi gan sefydliad neu gorff sy'n cyflogi gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig, er enghraifft ymddiriedolaeth y GIG, bwrdd iechyd y GIG, neu ysbyty preifat.
- Rydych chi wedi yn ddiweddar, rydych chi ar hyn o bryd neu byddwch chi cyn bo hir yn dal swydd, er enghraifft fel aelod o fwrdd Anweithredol, mewn unrhyw sefydliad sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd y GIG, cyrff rheoleiddio, cymdeithasau proffesiynol, cymdeithasau dysgedig, colegau brenhinol ac undebau llafur ac elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau gwirfoddol.
- Rydych chi wedi bod, neu rydych chi'n ymwneud ag unrhyw fusnes sy'n delio neu drafodion ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw gontract i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r NMC, neu i unrhyw berson neu sefydliad sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r NMC.
- Mae gennych chi berthynas neu gysylltiadau personol agos, yn y gorffennol neu ar hyn o bryd, ag unrhyw aelod presennol o Gyngor NMC, Cydymaith, aelod o'r Panel Dewis neu ag aelodau o dîm Gweithredol NMC.
- **Unrhyw fuddiant arall a allai fod yn berthnasol ac nad yw'n cael ei gwmpasu gan yr uchod.** Gallai hyn gynnwys unrhyw gysylltiad trwy aelodau agos o'r teulu neu gymdeithion a allai arwain arsylwr teg, ar ôl ystyried y ffeithiau, i ddod i'r casgliad y gallai diddordeb o'r fath ddylanwadu ar farn unigolyn mewn materion sy'n berthnasol i weithgaredd NMC.

Awst 2026

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth